



Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru 2023-24

28 Chwefror 2023

Cynnwys

- [Cyflwyniad](#)
- [Penawdau allweddol](#)
 - [Adeiladu cartrefi newydd](#)
 - [Diogelwch adeiladau](#)
 - [Datgarboneiddio](#)
 - [Digartrefedd a chymorth tai](#)
- [Cyhoeddiadau eraill am gyllid](#)
 - [Cymdeithasau tai fel darparwyr gofal](#)
 - [Cymorth ariannol i unigolion](#)
 - [Cymorth Prynu Cymru](#)
 - [Cymunedau Cynaliadwy](#)
- [Casgliad](#)



Cyflwyniad

Nid oes fawr o newid rhwng y [Gyllideb Derfynol](#) a'r [Gyllideb Ddrafft](#). Fodd bynnag, mae'n cyhoeddi £160m arall o fuddsoddiad cyfalaf Trafodion Ariannol dros 2023-24 a 2024-25 a gaiff ei ddyrannu tuag at fesurau i gefnogi pobl i aros yn eu cartrefi a'r rhaglenni cynllun Cymorth Prynu Cymru a Cymunedau Cynaliadwy. Mae'r gyllideb hefyd yn nodi newidiadau gweinyddol tebyg i drosglwyddo cyfrifoldeb rhwng portffolios Gweinidogol a throsglwyddo i ac o gronfeydd wrth gefn.

Mae naratif y gyllideb yn rhoi diweddariad ar chwyddiant ac yn nodi bod Banc Lloegr ym mis Chwefror 2023 yn asesu fod chwyddiant wedi cyrraedd ei frig yn hydref 2022 ac y disgwylir iddo ostwng yn ystod 2023-24 gyda disgwyl i'r Fyngai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ostwng gan bedwar y cant erbyn diwedd 2023. Mae'r Gyllideb yn nodi fod chwyddiant prisiau adeiladu, prisiau ynni a chyflogau yn codi ar gyfraddau amrywiol sy'n aml yn wahanol i'r CPI pennawd. Oherwydd yr amgylchedd economaidd cyfnewidiol ac anwadal, mae'r gyllideb yn amlinellu ymrwymiad i asesu effaith chwyddiant ar ei sefyllfa cyllid ar sail barhaus yn ystod 2023-24.

Mae'r datganiad ysgrifenedig ategol gan y Llywodraeth ar y gyllideb hefyd yn sôn am ddiweddariad pellach ar ragolygon a chyllid canlyniadol yn dilyn datganiad gwanwyn Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar 15 Mawrth.

Caiff y mesurau sy'n uniongyrchol berthnasol i gymdeithasau tai eu hamlinellu isod.

Penawdau allweddol

Mae Cyllideb Derfynol 2023-24 Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion cyhoeddiadau cyllid newydd y Gweinidog Cyllid sy'n anrhydeddu'r setliad sawl blwyddyn ac yn dyrannu cyfanswm o £1bn ar gyfer blaenoriaethau tai rhwng 2022-25.

Mae'r gyllideb hon yn dyrannu:

- Cadwyd Grant Cymorth Tai ar linell sylfaen 2022/23 (£166m)
- £10m ar gyfer y Grant Atal Digartrefedd
- Buddsoddiad ychwanegol o bron £100m yn y buddsoddiad cyfalaf Trafodion Ariannol i gadw pobl yn eu cartrefi, cefnogi tenantiaethau cymdeithasol ac adeiladu cartrefi cymdeithasol
- £330m Grant Tai Cymdeithasol
- £135m ar gyfer Diogelwch Adeiladau
- £227m ychwanegol ar gyfer Awdurdodau Lleol yn 2023/24
- £165m ychwanegol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol
- £18.8m ychwanegol mewn Cyllid Cymorth Dewisol

Adeiladu cartrefi newydd

Mae'r Gyllideb Derfynol yn anrhydeddu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fuddsoddi £330m mewn SHG ar gyfer 2023-24.



Yn ychwanegol, mae'r gyllideb hon yn dyrannu £60m i ddatblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth llifogydd a risg arfordirol, dŵr a charthffosiaeth, gyda £2m wedi ei ddyrannu i alluogi Cyfoeth Naturiol Cymru.

Er yr anawsterau sylweddol sy'n wynebu cymdeithasau tai, nid yw'r ymrwymiad i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy wedi llacio. Bydd CHC yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i gydwethio i ganfod datrysiadau sy'n lliniaru rhai o'r heriau hyn.

Diogelwch adeiladau

Mae'r gyllideb yn dyrannu £135m ar gyfer diogelwch adeiladau. Cafodd y pecyn ei gyhoeddi yng nghyllideb 2022/23 a osododd y cyllid am dair blynedd fel sy'n dilyn: £75m yn 2022-23, £135m yn 2023-24 a £165m ar gyfer 2024-25.

Datgarboneiddio

Ym mis Mawrth 2022, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru Gronfa Seilwaith tair blynedd yn darparu £1.8bn o fuddsoddiad mewn creu Cymru wyrddach. Eleni rydym yn falch i weld parhad cyllid sylweddol gyda chyfanswm o £1.7bn o gyllid cyfalaf wedi ei ddyrannu i flaenoriaethau hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys £92m ar gyfer datgarboneiddio preswyl ac ansawdd.

Dyrannodd cyllideb y llynedd £35m i brofi defnydd modelau cyllido newydd drwy'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Fel yr amlinellwyd yn y gyllideb ar gyfer 2022-23 mae cyllideb eleni yn anrhydeddu ymrwymadau Llywodraeth Cymru ac yn dyrannu £72m o gyllid i'r rhaglen.

Yn ystod 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) 2023. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau i'w gwneud yn ofynnol i'r sector tai cymdeithasol gyflawni safon uwch o ECP A / SAP 92 o flaen rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Nid oedd cyllideb ddrafft na chyllideb derfynol 2023/24 yn rhoi unrhyw fanylion ar y pecyn penodol ar gyfer SATC 2023. Byddwn yn parhau ein gwaith gydag aelodau i gyflwyno'r achos dros ddatrysiad cyllid hirdymor i ddatgarboneiddio.

Digartrefedd a chymorth tai

Cadwyd cyllid ar gyfer y Grant Cymorth Tai ar linell sylfaen o £166m. Rydym yn glir fod hyn yn golygu toriad mewn gwir dermau.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Cymorth Cymru ar ein hymgyrch Materion Tai i sicrhau cynnydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Mae datganiad arfaethedig y Gwanwyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth San Steffan yn ddiweddar yn gyfle arall i o bosibl sicrhau buddsoddiad mewn HSG o gyllid canlyniadol ar gyfer Cymru.

Mae cyllideb eleni yn gweld dyraniad o £10m ychwanegol i'r gyllideb atal digartrefedd er mwyn cefnogi awdurdodau lleol a darparwyr cymorth eraill i barhau'r ymagwedd 'peidio gadael neb allan';.

Mae'r gyllideb derfynol hefyd yn cadarnhau mwy o fuddsoddiad cyfalaf Trafodion Ariannol ac yn benodol yn dyrannu bron £100m at fesurau fydd yn helpu pobl i aros yn eu cartrefi a chefnogi tai



cymdeithasol gyda'r nod o helpu pobl i osgoi digartrefedd, atal ailfeddiannu a chreu mwy o dai cymdeithasol.

Cyhoeddiadau eraill am gyllid

Cymdeithasau tai fel darparwyr gofal

Fel rhan o gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus, cafodd £165m ei ddyrannu i fuddsoddi ymhellach mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn 2023/24. Bydd hyn yn llinell sylfaen yn 2024/25. Daw hyn o fewn pecyn £10.1bn o gyllid refeniw presennol i gefnogi iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Rydym yn falch i weld y buddsoddiad ychwanegol hwn fydd yn rhoi cymorth ariannol y mae ei fawr angen i sefydlogi'r sector drwy gyfnod o bwysau na welwyd ei debyg. Mae'r gyllideb hefyd yn dyrannu £60.5m i'r Gronfa Gofal Integredig.

Rydym yn falch y gweithredwyd ar ein galwadau, a wnaed mewn partneriaeth gyda Fforwm Cenedlaethol Darparwyr, am gyllid ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer rhai sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol. Mae cyllideb 2023/24 yn ymrwmo £70 miliwn i awdurdodau lleol a byrddau iechyd Cymru fel y gallant weithredu'r cynnydd yn y cyflog byw gwirioneddol – i £10.90 yr awr – gyda gweithwyr yn teimlo'r budd erbyn Mehefin 2023.

Cymorth ariannol ar gyfer unigolion

Yn 2022/23 cyhoeddodd cyllideb Llywodraeth Cymru becyn £162 miliwn i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer unigolion yn yr hyn y disgwylid fyddai'n flwyddyn heriol.

Mae cyllideb eleni yn cyhoeddi nifer o fesurau i gefnogi pobl drwy gyfres o argyfyngau, yn cynnwys:

- £18.8m ychwanegol ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol, yn cynyddu cyfanswm y gyllideb ar gyfer 23/24 i £38.5m.
- £2.2m ar gyfer y cynllun peilot ar incwm sylfaenol.
- £9m ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion.
- £35m ar gyfer y Rhaglen Tlodi Tanwydd.
- £25m ar gyfer Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru.

Croesawn y mesurau hyn, fodd bynnag, amcangyfrifir y bydd biliau ynni cyfartalog yn codi gan 20% o 1 Ebrill, gyda chwsmeriaid yn annhebyg o fanteisio o'r gostyngiad a ddisgwylir mewn prisiau ynni tan ganol yr haf. Bydd aelwydydd sydd eisoes dan bwysau yn parhau i wynebu anawsterau, ar yr un pryd ag y caiff cymorth ariannol y Llywodraeth ei ostwng. Byddwn yn parhau â'n gwaith i alw ar Lywodraeth Cymru i symud ymlaen ar frys ar drafodaethau gyda'r diwydiant ynni i gyflwyno tariff cymdeithasol ar gyfer yr aelwydydd mwyaf bregus.

Cymorth Prynu Cymru



Mae'r gyllideb hon yn dyrannu £63m i ymestyn cynllun Cymorth Prynu Cymru tan fis Mawrth 2025. Caiff y cynllun ei ddiwygio i roi ystyriaeth i'r newidiadau yn y farchnad tai a'r hinsawdd economaidd anodd cyfredol.

Cymunedau Cynaliadwy

Mae cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi £2.4m arall ar gyfer rhaglen Model Buddsoddiad Cydfuddiannol Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Mae'r gyllideb yn disgrifio hyn fel buddsoddiad ecwiti gyda'r brif nod o ddarparu cyfleusterau newydd yn ychwanegol at y rhai y gellir eu cefnogi gan y Gyllideb Cyfalaf Addysg.

Casgliad

Mae penderfyniadau Llywodraeth Cymru i ddiogelu buddsoddiad cyfalaf mewn blaenoriaethau tai mewn cyfnodau economaidd heriol yn dangos neges glir a chryf fod Llywodraeth Cymru yn anelu i gefnogi'r sector tai cymdeithasol i ddarparu cartrefi diogel, cynnes a fforddiadwy dros dymor hwn y Senedd.

Ynghyd â'n haelodau a Cymorth Cymru, byddwn yn parhau ein gwaith i alw am gynnydd yn y Grant Cymorth Tai i ddiogelu gwasanaethau hanfodol. Gofynnir i chi barhau i drafod yr ymgyrch hon gyda'ch Aelodau o'r Senedd a'u hannog i barhau i godi'r angen brys am gyllid ychwanegol gyda Gweinidogion Cymru yn yr wythnosau nesaf cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol a datganiad gwanwyn Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

I drafod y papur gwybodaeth hwn, cysylltwch â Rhea Stevens neu Laura Courtney, Penaethiaid Polisi a Materion Allanol os gwelwch yn dda:

Rhea-Stevens@chcymru.org.uk

Laura-Courtney@chcymru.org.uk